OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1713 (Cy.181)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*8 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	- -	*23 Gorffennaff 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(a) ac (e), 17(1), 26(1) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, yn pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd a phennu gweithdrefnau ynglyn â materion diogelwch bwyd(**3**) ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003, deuant i rym ar 23 Gorffennaf a byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995(**4**)), i'r graddau eu bod yn gymwys i Gymru, yn unol â pharagraffau canlynol y Rheoliadau hyn.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn lle'r diffiniad o "permitted sweetener", rhoddir y diffiniad canlynol—

> ""permitted sweetener" means the sweetener salt of aspartame-acesulfame so far as it satisfies the purity criteria for it set out at pages 19 to 21 of the Food and Agriculture Organisation's Compendium of Food Additives Specifications Addendum 8 (2000) FAO Food and Nutrition Paper 52 Addendum 8 and any sweetener specified in column 2 of Schedule 1 which satisfies the specific purity criteria for that sweetener set out —

(**1**) 1990 p. 16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) O.S. 1995/3123, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/1477, O.S. 1997/814, O.S. 1999/982, O.S. 2001/2679 (Cy..220) ac O.S. 2002/330 (Cy.43).

(a) in the case of sucralose, at pages 119 to 124 of the Food and Agriculture Organisation's Compendium of Food Additives Specifications Addendum 2 (1993) FAO Food and Nutrition Paper 52 Addendum 2; and

(b) in the case of any sweetener other than sucralose, in the Annex to Directive 95/31/EC(**5**)."

(3) Rhoddir yr is-baragraff canlynol yn lle is-baragraff (c) o reoliad 2(3) —

"(c) in column 4, the maximum usable dose indicated in relation to a food is —

(i) in the case of all permitted sweeteners except cyclamic acid and its Na and Ca salts, saccharin and its Na, K and Ca salts and salt of aspartame-acesulfame, the maximum amount, in milligrams, of permitted sweeteners per kilogram or, as the case may be, per litre of that food which is ready to eat having been prepared according to any instructions for use,

(ii) in the case of cyclamic acid and its Na and Ca salts and saccharin and its Na, K and Ca salts, the maximum amount of free acid contained in the cyclamic acid and its Na and Ca salts or, as the case may be saccharin, and its Na, K and Ca salts present in that food which is ready to eat having been prepared according to any instructions for use, measured in milligrams per kilogram or, as the case may be, per litre of the food.".

(4) Ym mharagraff (3) o reoliad 3 (gwerthu a defnyddio melysyddion) rhoddir yr ymadrodd "paragraphs (4) and (5)" yn lle'r ymadrodd "paragraph (4)".

(5) Mewnosodir y paragraff canlynol yn union ar ôl paragraff (4) o reoliad 3 —

"(5) The prohibition on using aspartame and acesulfame K in or on any food which is imposed by virtue of paragraph (3) above shall apply equally in relation to the use of salt of aspartame-acesulfame in or on that food.".

Diwygiadau Canlyniadol

3.—(1) Bydd paragraff (2) o reoliad 3 (diwygiadau canlyniadol) o Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2002(**6**) yn peidio â bod yn effeithiol.

(2) Yn y darpariaethau a bennir ym mharagraff (3), i'r graddau eu bod yn gymwys i Gymru, dehonglir cyfeiriadau at Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y'u digwygiwyd hyd at, a chan gynnwys, y diwygiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud yn effeithiol.

(3) Dyma'r darpariaethau—

(a) diffiniad "permitted sweetener" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981(**7**);

(b) diffiniad "additive" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**8**);

(c) diffiniad "sweetener" yn Rhan II o Atodlen 1 (categorïau o ychwanegion bwyd) i Reoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**9**));

(ch) diffiniad "sweetener" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**10**); a

(**5**) OJ Rhif L178, 28.7.95, t.1, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 1998/66/EC (OJ Rhif L257, 19.9.98, t.35), Cyfarwyddeb 2000/51/EC (OJ Rhif L198, 4.8.2000, t.41) a Chyfarwyddeb 2001/52/EC (OJ Rhif L190, 12.7.2001, t.18).
(**6**) O.S. 2002/330 (Cy.43).
(**7**) O.S. 1981/1063; O.S. 1983/1211 ac O.S. 1995/3123 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.
(**8**) O.S. 1984/1566; O.S. 1995/3123, O.S. 1995/3124 ac O.S. 1995/3187 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.
(**9**) O.S. 1992/1978; O.S. 1995/3123 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**10**) O.S. 1995/3187, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r heoliadau hyn.